**Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu / Building Control Service**

01286 685011 / 01286 685012

rheolaethadeiladu@gwynedd.llyw.cymru
buildingcontrol@gwynedd.llyw.cymru

## Cais Rheoliadau Adeiladu am Gymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu gyda Chynlluniau Llawn (Cymru) ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch

# Nodiadau a Rhestr Wirio

| | A yw cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn addas? | Rheoliad | A yw yn berthnasol ? |
|---|---|---|---|
| 1 | **A yw'r gwaith adeiladu ac ati, mewn perthynas â gwaith adeiladu risg uwch?**<br>Ni ellir caniatáu cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn o dan y rheoliadau adeiladu mewn amgylchiadau o'r fath. Cyfeiriwch at Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025. | 2C<br>2D | Ydy ☐<br>Nac Ydy ☐ |
| 2 | **A yw unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol wedi'i wneud a bod yr hysbysiad cychwynnol wedi peidio â bod mewn grym?**<br>Os felly, mae 17 - Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â gwaith wedi ei gwblhau yn rhannol) yn berthnasol. Dylid cydymffurfio â gofynion y rheoliad hwnnw ac nid yw cais am dystysgrif rheoleiddio adeiladu yn briodol. | 12(7)<br><br>17 - Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 | Ydy ☐<br>Nac Ydy ☐ |
| 3 | **A yw'r gwaith arfaethedig ar adeilad wedi'i eithrio neu'n waith wedi'i eithrio?**<br>Nid yw cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn briodol yn yr amgylchiadau hyn. | 9<br><br>Atodlen 2 | Ydy ☐<br>Nac Ydy ☐ |
| 4 | **A yw'r gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud o dan gynllun hunan-ardystio neu gynllun ardystio rhannol trydydd parti wedi'i eithrio o'r gofyniad i wneud cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn?**<br>Nid yw cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn briodol yn yr amgylchiadau hyn. | 12(6)(a)<br>20<br>20A<br>Atodlen 3<br><br>Atodlen 3A | Ydy ☐<br>Nac Ydy ☐ |
| 5 | **A yw'r disgrifiad o'r gwaith o'r fath fel nad oes angen cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn?**<br>Nid yw cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn briodol yn yr amgylchiadau hyn. | 12(6)(b)<br><br>Atodlen 4: | Ydy ☐<br>Nac Ydy ☐ |

Os yw'r ymateb i'r holl gwestiynau yn **'nac ydy'**, yna mae rhoi cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn **yn briodol** ar gyfer y gwaith arfaethedig. Pan fo'r ymateb yn **'ydy'** ar gyfer rhes 1, dylid gwneud cais am adeiladu risg uwch i'r Awdurdod Rheolaeth Adeiladu o dan Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch (Cymru) 2025. Lle mai **'ydy'** yw'r ymateb yn unrhyw res arall, nid oes angen cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn ar gyfer y gwaith.

| | **A oes angen gwybodaeth ychwanegol?** | **Rheoliad** | **Wedi'i gynnwys neu ddim yn berthnasol?** |
|---|---|---|---|
| **6** | Yn achos codi adeilad neu estyniad i adeilad, rhaid i hysbysiad adeiladu fod gyda chynllun ar raddfa o ddim llai na 1:1250 sy'n dangos:<br>• maint a lleoliad yr adeilad, neu'r adeilad wedi'i ymestyn, a'i berthynas â ffiniau cyfagos<br>• ffiniau cwrtil yr adeilad, neu'r adeilad wedi'i ymestyn, a maint, lleoliad a defnydd pob adeilad arall neu adeilad arfaethedig o fewn y cwrtil hwnnw<br>• lled a lleoliad unrhyw stryd ar neu o fewn ffiniau cwrtil yr adeilad neu'r adeilad wedi'i ymestyn. | 13(2)(a)<br>14(3)(b)<br>13(2)(a)(i)<br>14(3)(b)<br>13(2)(a)(ii)<br>14(3)(b)<br>13(2)(a)(iii)<br>14(3)(b) | Wedi'i gynnwys ☐<br>Ddim yn berthnasol ☐ |
| **7** | Yn achos codi neu ymestyn adeilad, bydd cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn cyd-fynd â datganiad sy'n nodi nifer y lloriau (pob lefel islawr yn cael ei gyfrif fel un llawr), yn yr adeilad y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef. | 13(2)(b)<br>14(3)(b) | Wedi'i gynnwys ☐<br>Ddim yn berthnasol ☐ |
| **8** | Yn achos codi neu ymestyn adeilad, bydd cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn yn cyd-fynd â manylion am:<br>• y ddarpariaeth sydd i'w gwneud ar gyfer draenio'r adeilad neu'r estyniad<br>• y camau sydd i'w cymryd i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol. | 13(2)(c)(i)<br>14(3)(b)<br>13(2)(c)(ii)<br>14(3)(b) | Wedi'i gynnwys ☐<br>Ddim yn berthnasol ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Mae'n bwysig bod datblygwyr yn ymgysylltu â gweithredwyr rhwydwaith ar y cyfle cyntaf posibl i osgoi oedi diangen i waith adeiladu perthnasol ddechrau ar y safle. Pan nad yw'r cynllun Cysylltedd ar gael ar adeg cyflwyno unrhyw hysbysiad neu gais perthnasol i gorff Rheolaeth Adeiladu, yna dylid cyflwyno datganiad cysylltedd (neu debyg) i'r corff Rheolaeth Adeiladu i ddangos bod yr ymgysylltiad hwn wedi dechrau. Gweler ffurflen enghreifftiol datganiad Cysylltedd yn Atodiad C y gall y datblygwr ei defnyddio neu ei haddasu wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath.<br>Gweler paragraff 3.2 o'r Ddogfen Gymeradwy R cyfrol 1:2025 | 44ZAA | Wedi'i gynnwys<br>☐<br>Ddim yn berthnasol<br>☐ |

| Gwybodaeth Bellach | | Rheoliad |
|---|---|---|
| 10 | I gyd-fynd â chais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn, rhaid cael:<br><br>• dau gopi o'r cynlluniau llawn, neu<br>• lle fo Rhan B o Atodlen 1 (diogelwch tân) yn gosod gofyniad mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig, pedwar copi o'r cynlluniau llawn (nid yw hyn yn berthnasol pan fo'r gwaith adeiladu arfaethedig yn ymwneud â chodi, estyniad neu newid materol tŷ annedd neu fflat yn unig). | 14(2)(a)<br><br>14(4) |
| 11 | Bydd cynlluniau ond yn gynlluniau llawn os ydynt yn cynnwys:<br>• disgrifiad o'r gwaith adeiladu arfaethedig, gwaith adnewyddu neu ailosod elfen thermol, newid yn statws ynni'r adeilad neu newid defnydd materol<br>• y cynlluniau, y manylion a'r datganiadau sy'n ofynnol gan baragraffau (1), (1A) a (2) o Reoliad 13<br>• lle mae paragraff H4 o Atodlen 1 yn gosod gofyniad, manylion y rhagofalon sydd i'w cymryd wrth adeiladu dros ddraen, carthffos neu brif bibell waredu i gydymffurfio â gofynion y paragraff hwnnw ac<br>• unrhyw gynlluniau eraill sy'n angenrheidiol i ddangos y byddai'r gwaith yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau hyn. | 14(4) |
| 12 | Rhaid i'r awdurdod rheolaeth adeiladu hysbysu'r ymgeisydd am ganlyniad y cais o fewn pum wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y derbynnir y cais gan yr awdurdod rheolaeth adeiladu, neu o fewn cyfnod hirach ag y mae'r awdurdod a'r ymgeisydd yn cytuno yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg. Os ydych yn dymuno ymestyn y cyfnod o amser y mae'n rhaid i'r awdurdod rheolaeth adeiladu hysbysu am ganlyniad y cais, gallwch gynnwys y cais hwn gyda'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gyda chynlluniau llawn i'r awdurdod rheolaeth adeiladu ei ystyried. | 14D(6) |
| 13 | Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yr awdurdod rheolaeth adeiladu yn ymgynghori â chyrff statudol yn ôl yr angen, ac yn trosglwyddo'r manylion hynny rydych chi'n eu cyflwyno ar eich ffurflen gais at ddibenion caniatáu'r cais am y Rheoliadau Adeiladu. Heb gasglu'r data hwn, ni allwn brosesu'r cais. Dim ond i'r ymgyngoreion statudol angenrheidiol y caiff manylion yr ymgeisydd eu trosglwyddo. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r broses ymgynghori hon, cysylltwch â ni. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â hawliau gwybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar https://ico.org.uk/ | 15<br>15B |

| Gwybodaeth am Ffioedd | | Rheoliad | Ymateb Oes / Nac Oes |
|---|---|---|---|
| 14 | A oes eithriad ar gyfer gwaith adeiladu sydd ond ei angen ar gyfer pobl anabl yn unig? | 4 - Rheoliadau Adeiladu (Ffioedd Awdurdodau Lleol) 2010 | Oes ☐<br>Nac Oes ☐ |
| 15 | A oes cytundeb ar ffi briodol? | 5 - Rheoliadau Adeiladu (Ffioedd Awdurdodau Lleol) 2010 | Oes ☐<br>Nac Oes ☐ |
| 16 | A oes taliad wedi'i ddarparu gyda'r cais? | 8 - Rheoliadau Adeiladu (Ffioedd Awdurdodau Lleol) 2010 | Oes ☐<br>Nac Oes ☐ |

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ar gyfer rhai o'r senarios gwaith adeiladu mwy cyffredin. Dylid cyfeirio bob amser at Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) am fanylion llawn

Lluniwyd yr wybodaeth ym mis Mai 2026